

## Cadw gwaith ar gyfrifiadur


Mae'n werth cofio bod gwneuthurwyr offer trydanol ac electronig yn ymwybodol o'r amrywiadau yn foltedd y cyflenwad a'u bod yn dylunio eu cynnyrch i ymdopi â hynny. Daeth deddfwriaeth i rym yn 1996 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob offer trydanol newydd gael ei ddylunio i allu gwrthsefyll y math o ymyriadau a geir fel arfer mewn unrhyw rwydwaith trydan.


Oherwydd bod y rhan fwyaf o'r toriadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nid ydym yn talu am unrhyw fath o golled neu ddifrod i offer. Efallai y byddwch yn dymuno gwirio bod eich yswiriant yn cynnwys yr holl offer trydanol.

Rydym bob amser yn falch o gadarnhau manylion am unrhyw doriad yn y cyflenwad os byddwch yn penderfynu hawlio yn erbyn eich yswiriant.

## Cysylltu â ni

Am fwy o wybodaeth am baratoi ar gyfer toriad yn y cyflenwad, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni drwy'r dulliau canlynol:

 [www.spenergynetworks.co.uk](http://www.spenergynetworks.co.uk)

 0330 10 10 444

 [customercare@spenergynetworks.com](mailto:customercare@spenergynetworks.com)

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn Cymraeg. Os byddwch angen copi, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

Ni fydd galwadau i rifau 03 yn costio mwy na galwad cyfradd genedlaethol i rif 01 neu 02 ac mae'n rhaid iddynt gael eu cynnwys fel rhan o unrhyw funudau cynwysedig yn yr un modd â galwadau 01 a 02. Mae'r rheolau hyn yn gymwys i alwadau o unrhyw fath o linell yn cynnwys symudol, BT, unrhyw linell sefydlog arall neu ffôn talu.

# Gwarchod eich offer



---

# Eich offer trydanol a thoriadau yn y cyflenwad

Mae pob un ohonom yn disgwyl i drydan fod ar gael 24/7, fodd bynnag, ar adegau prin, gall problemau godi a gall y cyflenwad gael ei dorri.

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn rhoi cyngor ar y camau y gallwch eu cymryd nawr i helpu i warchod offer sensitif yn eich cartref neu fusnes.



---

## Offer trydanol megis:

Mae ffonau, clociau radio, blychau lloeren/cebl, chwaraewyr DVD, cyfrifiaduron a systemau larwm yn fwy sensitif nag offer arall. Mae hyn oherwydd bod y cyflenwad pŵer mewnol yn gweithredu'n barhaus, hyd yn oed pan nad ydych yn ei ddefnyddio.

Mae'r gwres parhaus a gynhyrchir gan y cyflenwad trydan yn araf yn lleihau gallu'r rhannau mewnol i wrthsefyll amrywiadau mewn foltedd.

---

## Beth allwch chi ei wneud?

Mae yna nifer o gamau y gallwch eu cymryd i warchod eich offer trydanol:

- Prynu offer trydanol sy'n cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol.
- Rhoi sylw i storio ac awyriad.
- Datgysylltu plygiau'r offer pan fo toriad yn eich cyflenwad.
- Gosod dyfeisiadau gwarchod rhag ymchwydd pŵer. Gallwch brynu'r rhain o'ch siop DIY leol.

---

## Hidlyddion pŵer

Mae'r rhain yn gwarchod rhag foltedd uchel yn yr un modd â gwarchodwyr ymchwydd. Maent hefyd yn helpu i leihau'r ymyriant trydanol all ddigwydd.

---

## Cyflyryddion llinell

Mae'r rhain yn darparu foltedd wedi'i reoleiddio ac yn cael gwared ag ymyriant o'r cyflenwad. Ar brydiau fe'u defnyddir mewn ffatrioedd ble defnyddir offer trwm yn agos i gyfrifiaduron ac offer swyddfa. Dylid cael cyngor arbenigol cyn prynu'r offer hwn.

---

## Cyflenwadau Trydan Annhoradwy (CTA)

Pan fo toriad yn y cyflenwad mae CTA yn defnyddio ei fatri i sicrhau bod eich cyfrifiadur neu offer arall yn parhau i weithio. Bydd yn eich galluogi i weithio yn ystod toriadau byr yn y cyflenwad, neu ddiffodd eich system yn ddiogel.

Mae nifer o unedau yn hidlo a rheoleiddio'r trydan er mwyn gwarchod eich cyfrifiadur rhag amrywiadau yn y cyflenwad. Gall rhai gadw eich gwaith a diffodd eich cyfrifiadur hyd oed os na fyddwch yn bresennol. Gallwch brynu CTA o siop cyfrifiaduron. Gofynnwch am help pan fyddwch yn dewis maint yr uned er mwyn sicrhau ei bod yn ddigon pwerus ar gyfer yr offer yr ydych eisiau ei amddiffyn.

Os ydych yn defnyddio cyfrifiadur, rydym yn argymhell eich bod yn cadw eich gwaith yn rheolaidd. Dylid gwneud copi wrth gefn o unrhyw ffeiliau pwysig, rhag ofn.